OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2021 Rhif 327 (Cy. 85)

# LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

## Rheoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig (Cyffredinol) (Cymru) 2021

| | | |
|---|---|---|
| *Gwnaed* | - - - - | *17 Mawrth 2021* |
| *Yn dod i rym* | - - | *1 Ebrill 2021* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 83(2), 84 a 174 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021(**1**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

Gosodwyd drafft o'r Rheoliadau yma gerbron Senedd Cymru yn unol ag adran 174(4) a (5)(k) ac (l) o'r Ddeddf ac fe'u cymeradwywyd ganddi drwy benderfyniad.

### Enwi a dod i rym

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig (Cyffredinol) (Cymru) 2021.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 1 Ebrill 2021.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** Rhl. 1 mewn grym ar 1.4.2021, gweler **rhl. 1(2)**

### Dehongli

**2.**—(1) Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "aelod" ("*member*") yw person a benodwyd i gyd-bwyllgor corfforedig o dan reoliadau a wnaed o dan Ran 5 o Ddeddf 2021;

ystyr "cyd-bwyllgor corfforedig" ("*corporate joint committee*") yw cyd-bwyllgor corfforedig a sefydlwyd drwy reoliadau a wnaed o dan Ran 5 o Ddeddf 2021;

ystyr "cyfranogwr cyfetholedig" ("*co-opted participant*") yw person sydd wedi ei gyfethol gan aelodau'r cyngor i gymryd rhan yng ngweithgarwch cyd-bwyllgor corfforedig;

ystyr "cyngor cyfansoddol" ("*constituent council*"), mewn perthynas â chyd-bwyllgor corfforedig, yw'r prif gyngor ar gyfer prif ardal yn ardal y cyd-bwyllgor corfforedig;

(**1**) 2021 dsc 1.

ystyr "Deddf 2021" ("*the 2021 Act*") yw Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau 2021 (dsc 1);

mae i "prif aelod gweithrediaeth" ("*senior executive member*") yr ystyr a roddir gan adran 77(4) o Ddeddf 2021;

mae i "prif ardal" ("*principal area*") yr ystyr a roddir gan adran 68 o Ddeddf 2021;

mae i "prif gyngor" ("*principal council*") yr ystyr a roddir yn adran 171(1) o Ddeddf 2021.

(2) Mae cyfeiriadau yn y Rheoliadau hyn at ardal cyd-bwyllgor corfforedig yn gyfeiriadau at yr ardal sy'n ffurfio—

(a) prif ardaloedd y prif gynghorau a oedd wedi gwneud cais cyd-bwyllgor o dan adran 72(1) o Ddeddf 2021, neu

(b) y prif ardaloedd a bennwyd mewn rheoliadau a wnaed o dan adran 74(1) o'r Ddeddf honno.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I2** Rhl. 2 mewn grym ar 1.4.2021, gweler **rhl. 1(2)**

# RHAN 1

## Safonau ymddygiad

### Ymddygiad aelodau, cyfranogwyr cyfetholedig a chyflogeion cyd-bwyllgor corfforedig

**3.** Mae Atodlen 1 yn gwneud darpariaeth ynghylch y safonau ymddygiad sy'n gymwys mewn perthynas ag aelodau, cyfranogwyr cyfetholedig a chyflogeion cyd-bwyllgorau corfforedig.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I3** Rhl. 3 mewn grym ar 1.4.2021, gweler **rhl. 1(2)**

# RHAN 2

## Cyllid a chyfrifon

### Cyllid a chyfrifon

**4.** Mae Atodlen 2 yn gwneud darpariaeth ynghylch cyllid a chyfrifon cyd-bwyllgorau corfforedig.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I4** Rhl. 4 mewn grym ar 1.4.2021, gweler **rhl. 1(2)**

# RHAN 3

## Diwygiadau cyffredinol

### Diwygiadau cyffredinol sy'n ymwneud â statws cyd-bwyllgor corfforedig

**5.** Mae Atodlen 3 yn cynnwys diwygiadau i ddeddfiadau eraill sy'n ymwneud â statws cyd-bwyllgor corfforedig fel corff cyhoeddus.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I5** Rhl. 5 mewn grym ar 1.4.2021, gweler **rhl. 1(2)**

*Julie James*
Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol, un o Weinidogion Cymru

17 Mawrth 2021

## ATODLEN 1

Rheoliad 3

### Safonau ymddygiad

**Cymhwyso cod ymddygiad awdurdod perthnasol i aelodau a chyfranogwyr cyfetholedig**

**1.**—(1) Mae is-baragraff (2) yn gymwys i berson—

(a) sydd—

(i) yn aelod, neu

(ii) yn gyfranogwyr cyfetholedig,

o gyd-bwyllgor corfforedig, a

(b) sydd—

(i) yn aelod, neu

(ii) yn aelod cyfetholedig,

o awdurdod perthnasol.

(2) At ddibenion cod ymddygiad yr awdurdod perthnasol, mae person y mae'r paragraff hwn yn gymwys iddo i'w drin fel pe bai wedi ei benodi gan yr awdurdod perthnasol i wasanaethu ar y cyd-bwyllgor corfforedig.

(3) Pan fo'n ofynnol, yn rhinwedd is-baragraff (2), i berson y mae'r is-baragraff hwnnw yn gymwys iddo, i'r graddau y mae'n gweithredu ar ran y cyd-bwyllgor corfforedig, i gydymffurfio â'r cod ymddygiad enghreifftiol ("y cod"), mae is-baragraffau (4) a (5) yn gymwys.

(4) Mae cyfeiriadau at "awdurdod" person yn Rhan 3 o'r cod i'w darllen fel cyfeiriadau at y cyd-bwyllgor corfforedig y mae'r person yn gweithredu ar ei ran.

(5) Rhaid i berson gofrestru unrhyw fuddiant personol sydd ganddo ym musnes y cyd-bwyllgor corfforedig yng nghofrestr buddiannau aelodau ei awdurdod perthnasol drwy roi hysbysiad ysgrifenedig i swyddog monitro'r awdurdod.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I6** Atod. 1 para. 1 mewn grym ar 1.4.2021, gweler **rhl. 1(2)**

**Cymhwyso cod ymddygiad awdurdod i gyflogeion**

**2.**—(1) Mae is-baragraff (2) yn gymwys oni bai—

(a) bod darpariaeth ddatganedig yn cael ei gwneud i'r gwrthwyneb, neu

(b) bod y cyd-destun yn mynnu fel arall.

(2) Mae Gorchymyn Cod Ymddygiad (Cyflogeion Cymwys Llywodraeth Leol) (Cymru) 2001(**2**) ("Gorchymyn 2001") yn gymwys i gyflogai cyd-bwyllgor corfforedig fel y mae'n gymwys i gyflogai awdurdod perthnasol.

(3) Yng Ngorchymyn 2001, fel y mae'n gymwys yn rhinwedd is-baragraff (2), mae cyfeiriad at awdurdod cyflogai i'w ddarllen fel cyfeiriad at gyd-bwyllgor corfforedig cyflogai.

(**2**) O.S. 2001/2280 (Cy. 170).2000 p. 22.

**Gwybodaeth Cychwyn**
**I7** Atod. 1 para. 2 mewn grym ar 1.4.2021, gweler **rhl. 1(2)**

### Dehongli Atodlen 1

**3.** Yn yr Atodlen hon—

(a) mae cyfeiriadau at "Deddf 2000" yn gyfeiriadau at Ddeddf Llywodraeth Leol 2000(**3**);

(b) mae cyfeiriadau at y "cod ymddygiad enghreifftiol" yn gyfeiriadau at y cod ymddygiad enghreifftiol a nodir yn yr Atodlen i Orchymyn Awdurdodau Lleol (Cod Ymddygiad Enghreifftiol) (Cymru) 2008(**4**);

(c) ystyr "cod ymddygiad" yw'r cod ymddygiad a fabwysiadwyd gan awdurdod perthnasol o dan adran 51 o Ddeddf 2000;

(d) mae i "aelod cyfetholedig" yr ystyr a roddir i "co-opted member" gan adran 49 o Ddeddf 2000;

(e) mae i "awdurdod perthnasol" yr ystyr a roddir i "relevant authority" gan adran 49 o Ddeddf 2000.

**Gwybodaeth Cychwyn**
**I8** Atod. 1 para. 3 mewn grym ar 1.4.2021, gweler **rhl. 1(2)**

## ATODLEN 2

Rheoliad 4

Cyllid a chyfrifon

### Diwygio Deddf Llywodraeth Leol 2003

**1.** Yn adran 23 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003(**5**) (ystyr "local authority" ("awdurdod lleol")), ar ôl is-adran (10) mewnosoder—

> "(11) This Part applies in relation to a corporate joint committee established by regulations made under Part 5 of the Local Government and Elections (Wales) Act 2021 as it applies in relation to a local authority."

**Gwybodaeth Cychwyn**
**I9** Atod. 2 para. 1 mewn grym ar 1.4.2021, gweler **rhl. 1(2)**

(**3**) 2000 p. 22.
(**4**) O.S. 2008/788 (Cy. 82).
(**5**) 2003 p. 26. 2003 p. 26. Diwygiwyd adran 23 gan baragraff 100 o Atodlen 1 i Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (p. 21); paragraff 10(3)(e) o Atodlen 2 i Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004 (p. 36); paragraff 117(2) o Atodlen 6 i Ddeddf Democratiaeth Leol, Datblygu Economaidd ac Adeiladu 2009 (p. 20); paragraff 317 o Atodlen 16 i Ddeddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011 (p. 13); paragraff 6(32)(a) o Atodlen 13 i Ddeddf Dadreoleiddio 2015 (p. 20); adrannau 9(4) a 25(2) o Ddeddf Datganoli Dinasoedd a Llywodraeth Leol 2016 (p. 1); paragraff 83(2) o Atodlen 1 i Ddeddf Plismona a Throsedd 2017 (p. 3); a chan O.S. 2005/886.

### Diwygio Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf a Chyfrifyddu) (Cymru) 2003

**2.** Yn rheoliad 1(4) o Reoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf a Chyfrifyddu) (Cymru) 2003(**6**) (dehongli), yn y diffiniad o "local authority", ar ôl "Regulations" mewnosoder "and includes a corporate joint committee established by regulations made under Part 5 of the Local Government and Elections (Wales) Act 2021 in so far as Part 1 of the Local Government Act 2003 applies to corporate joint committees by virtue of section 23(11) of the 2003 Act".

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I10** Atod. 2 para. 2 mewn grym ar 1.4.2021, gweler **rhl. 1(2)**

ATODLEN 3 — Rheoliad 5

Diwygiadau cyffredinol

### Diwygio Deddf Awdurdodau Lleol (Nwyddau a Gwasanaethau) 1970

**1.** Yn adran 1(4) o Ddeddf Awdurdodau Lleol (Nwyddau a Gwasanaethau) 1970(**7**) (cyflenwi nwyddau a gwasanaethau gan awdurdodau lleol), yn y diffiniad o "local authority", ar ôl "any joint authority established by Part VI of the Local Government Act 1985," mewnosoder "any corporate joint committee established by regulations made under Part 5 of the Local Government and Elections (Wales) Act 2021,".

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I11** Atod. 3 para. 1 mewn grym ar 1.4.2021, gweler **rhl. 1(2)**

### Diwygio Deddf Cydraddoldeb 2010

**2.** Yn adran 59(2) o Ddeddf Cydraddoldeb 2010(**8**), ar ôl paragraff (j) mewnosoder—

"(ja) a corporate joint committee established by regulations made under Part 5 of the Local Government and Elections (Wales) Act 2021;".

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I12** Atod. 3 para. 2 mewn grym ar 1.4.2021, gweler **rhl. 1(2)**

### Diwygio Deddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017

**3.** Ym mharagraff 1(4) o Atodlen 20 i Ddeddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017(**9**), ar ôl paragraff (d) mewnosoder—

(**6**) O.S. 2003/3239 (Cy. 319). Diwygiwyd rheoliad 1 gan O.S. 2004/1010 (Cy. 107), O.S. 2006/944 (Cy. 93), O.S. 2018/325 (Cy. 61) ac O.S. 2019/736 (Cy. 139).
(**7**) 1970 p. 39.
(**8**) 2010 p. 15.
(**9**) 2017 dccc 1.

"(da) cyd-bwyllgor corfforedig a sefydlwyd drwy reoliadau a wnaed o dan Ran 5 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021;".

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I13** Atod. 3 para. 3 mewn grym ar 1.4.2021, gweler **rhl. 1(2)**

---

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae Rhan 1 o'r Rheoliadau hyn yn cyflwyno Atodlen 1 sy'n gwneud darpariaeth ynghylch y safonau ymddygiad sy'n gymwys i aelodau, cyfranogwyr cyfetholedig a chyflogeion cyd-bwyllgorau corfforedig.

Mae paragraff 1 o Atodlen 1 yn cyfeirio at y cod ymddygiad y mae rhaid i awdurdodau perthnasol ei fabwysiadu o dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 (p. 22). Mae'n darparu, pan fo aelod neu gyfranogwr cyfetholedig cyd-bwyllgor corfforedig yn aelod neu'n aelod cyfetholedig o awdurdod perthnasol o dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2000, fod cod ymddygiad ei awdurdod yn gymwys iddo fel pe bai wedi ei benodi i'r cyd-bwyllgor corfforedig gan ei awdurdod.

Mae paragraff 2 o Atodlen 1 yn cyfeirio at y cod ymddygiad ar gyfer cyflogeion awdurdodau perthnasol sydd hefyd wedi ei wneud o dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2000. Mae'n darparu bod y cod hwn yn gymwys i gyflogeion cyd-bwyllgorau corfforedig fel y mae'n gymwys i gyflogeion awdurdodau perthnasol o fewn yr ystyr a roddir gan y Ddeddf honno.

Mae Rhan 2 o'r Rheoliadau hyn yn cyflwyno Atodlen 2 sy'n gwneud darpariaeth ynghylch cyfrifon a chyllid cyd-bwyllgorau corfforedig.

Mae paragraff 1 o Atodlen 2 yn darparu bod Rhan 1 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 yn gymwys i gyd-bwyllgorau corfforedig fel y mae'n gymwys i awdurdodau lleol.

Mae Rhan 1 o Ddeddf 2003 yn gwneud darpariaeth ynghylch trefniadau rheoli ariannol awdurdodau lleol a chyrff cyhoeddus cysylltiedig, gan gynnwys yn benodol ddarpariaeth ynghylch cyllid cyfalaf ac arferion cyfrifyddu.

Mae paragraff 2 o Atodlen 2 yn darparu bod Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf a Chyfrifyddu) (Cymru) 2003 yn gymwys i gyd-bwyllgorau corfforedig fel y maent yn gymwys i awdurdodau lleol. Mae Rheoliadau 2003 yn gwneud darpariaeth bellach, fanylach, ynghylch y materion sydd wedi eu cynnwys yn Rhan 1 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003.

Mae Atodlen 3 yn gwneud diwygiadau cyffredinol i ddeddfiadau eraill.

Mae paragraff 1 o Atodlen 3 yn diwygio adran 1 o Ddeddf Awdurdodau Lleol (Nwyddau a Gwasanaethau) 1970 (p. 39) gyda'r effaith y caiff cyd-bwyllgorau corfforedig ymrwymo i gytundebau penodol ar gyfer nwyddau a gwasanaethau gydag awdurdod arall y mae'r adran honno yn gymwys iddo mewn perthynas â gweithrediadau masnachu.

Mae paragraff 2 o Atodlen 3 yn diwygio adran 59 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 (p. 15) gyda'r effaith bod y mesurau diogelu rhag gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth a nodir yn adran 58 o'r Ddeddf honno yn gymwys i aelod o gyd-bwyllgor corfforedig sy'n cyflawni busnes swyddogol fel aelod o'r fath.

Mae paragraff 3 o Atodlen 3 yn diwygio paragraff 1 o Atodlen 20 i Ddeddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017. Mae'r paragraff hwnnw yn darparu nad oes unrhyw dreth trafodiadau tir i'w chodi ar drafodiad tir rhwng cyrff cyhoeddus sy'n deillio o ganlyniad i ad-drefnu y darperir ar ei gyfer mewn deddfwriaeth. Mae'r diwygiad yn sicrhau bod cyd-bwyllgorau corfforedig yn cael eu trin fel cyrff cyhoeddus at ddibenion y rhyddhad hwnnw rhag treth.

Mae'r Rheoliadau yma yn gysylltiedig â Rheoliadau sy'n sefydlu cyd-bwyllgorau corfforedig penodol o dan Ran 5 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (dsc 1). Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau sy'n sefydlu cyd-bwyllgorau corfforedig a rheoliadau cysylltiedig. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol. Gellir cael copi oddi wrth yr Is-adran Cyllid Strategol Llywodraeth Leol, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Mae newidiadau yn dal heb eu gwneud i Rheoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig (Cyffredinol) (Cymru) 2021. Mae unrhyw newidiadau sydd wedi cael eu gwneud yn barod gan y tîm yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt gydag anodiadau.
View outstanding changes

**Changes and effects yet to be applied to :**

- Sch. 1 para. 1 heading words substituted by S.I. 2021/1349 reg. 43(4)(a)
- Sch. 1 para. 1(1)(a)(ii) words substituted by S.I. 2021/1349 reg. 43(4)(b)
- reg. 2 words omitted by S.I. 2021/1349 reg. 43(2)
- reg. 3 words substituted by S.I. 2021/1349 reg. 43(3)